| | |
|---|---|
| CYFARFOD | PWYLLGOR PENSIYNAU |
| DYDDIAD | 5 GORFFENNAF 2010 |
| TEITL | COMPASS |
| AWDUR | DILWYN WILLIAMS<br>CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL |

**1. Cefndir**

1.1 Adroddais i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr fod Hymans Robertson wedi datblygu cynnyrch newydd o'r enw Compass fyddai yn ein galluogi i gymryd golwg tymor hirach ar ragolygon y Gronfa pan yn penderfynnu ar y raddfa cyflogwr sydd i'w mabwysiadu ar ol y prisiad sydd yn cymeryd lle ar hyn o bryd.

1.2 Yn yr adroddiad hwnnw atgoffais y Pwyllgor y byddai'r prisiad presennol yn debygol o ddangos gostyngiad sylweddol yn y lefel asedau yn erbyn yr ymrwymiadau oherwydd sefyllfa'r marchnadoedd.

1.3 Rydym yn ddiweddar wedi derbyn adroddiad Navigator am y Gronfa fel ag yr oedd ar 1 Ebrill 2010 sy'n dangos y sefyllfa yma yn eithaf eglur a gwelir y graffiau perthnasol yn yr atodiadau.

1.4 Cytunodd y Pwyllgor y dylem gomisiynu adroddiad Compass ar gyfer y Gronfa i weld os oes ffordd i sefydlogi cyfraniadau'r cyflogwr ond ar yr un pryd cydymffurfio gyda'r angen i sicrhau hyfywdra hir dymor y Gronfa ac i gymryd sylw o'r risgiau perthnasol sydd ynghlwm a'r opsiynau sydd ar gael.

1.5 Daeth yr adroddiad Compass i law ac anfonwyd copi eisoes at yr aelodau.

1.6 Y cam nesaf yn y broses yw cysylltu gyda'r cyflogwyr perthnasol i drafod y polisi cyfraniadau cyflogwyr perthnasol yr hoffem i ni ei fabwysiadu ac er ein galluogi i wneud hynny, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor ffurfio ei farn ar ba opsiynau fyddai'n dderbyniol iddo yn ogystal ac unrhyw opsiynau fyddai yn annerbyniol.

1.7 Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor hefyd edrych ar y sefyllfa o ran pa gyflogwyr fydd yn gymwys i fanteisio ar y gogwydd hir dymor yma.

**2. Canlyniadau Compass**

2.1 Fe fydd cyflwyniad yn cael ei roi yn y cyfarfod i egluro casgliad adroddiad Compass mewn manylder. Fe fydd hyn yn galluogi'r Pwyllgor i drafod y risgiau perthnasol ac i benderfynnu pa opsiynau (os o gwbl) maent am eu heithro o'r trafodaethau.

**2.2.** Fe fydd yr aelodau wedi nodi o'r adroddiad fod yr Actiwari wedi nodi nad yw'r mecanwaith sefydlogrwydd ond yn gymwys i gyflogwyr hir dymor fel cynghorau sydd gyda sicrwydd trethiant y tu ol iddynt.

2.3 Bydd yn ofynnol i'r Pwyllgor hefyd ystyried a dylid ymestyn yr opsiynau yma i unrhyw gyflogwyr eraill, yn ogystal a beth fwriedir ei wneud gyda'r cyflogwyr eraill lle nad yw'r broses yma yn berthnasol iddynt.

2.4 Fe fydd swyddogion y Gronfa yn cynghori'r Pwyllgor ar y mater yma yn y cyfarfod.